



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3
Legislation Committee No. 3**

**Dydd Iau, 15 Gorffennaf 2010
Thursday, 15 July 2010**

Cynnwys
Contents

- 3 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions
- 4 Y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)—Cyfnod 1
The Proposed Local Government (Wales) Measure—Stage 1
- 6 Yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Mesur Arfaethedig
The Member in Charge of the Proposed Measure

Cofnodir y trafodion hyn yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y pwyllgor. Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg. Darperir cyfieithiad i'r Gymraeg o rannau penodol o'r cyfarfod.

These proceedings are reported in the language in which they were spoken in the committee. In addition, an English translation of Welsh speeches is included. A translation into Welsh is provided of specific parts of the meeting.

Aelodau'r pwyllgor yn bresennol
Committee members in attendance

| | |
|-------------------|--|
| Christine Chapman | Llafur Labour |
| Veronica German | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats |
| William Graham | Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives |
| David Lloyd | Plaid Cymru (Cadeirydd y Pwyllgor) The Party of Wales (Committee Chair) |
| Joyce Watson | Llafur Labour |

Eraill yn bresennol
Others in attendance

| | |
|----------------|---|
| Frank Cuthbert | Is-adran Polisi Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cynulliad Cymru Local Government Policy Division, Welsh Assembly Government |
| Emma Locke | Yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad Cymru Legal Services Department, Welsh Assembly Government |
| Stephen Phipps | Is-adran Polisi Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cynulliad Cymru Local Government Policy Division, Welsh Assembly Government |
| Carl Sargeant | Aelod Cynulliad, Llafur (Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol) Assembly Member, Labour (The Minister for Social Justice and Local Government) |

Swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bresennol
National Assembly for Wales officials in attendance

| | |
|-----------------|--|
| Sarah Beasley | Dirprwy Glerc Deputy Clerk |
| Ruth Hatton | Clerc Clerk |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser |
| Alys Thomas | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau Members' Research Service |

Dechreuodd y cyfarfod am 9.29 a.m.
The meeting began at 9.29 a.m.

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions

[1] **David Lloyd:** Croeso i gyfarfod **David Lloyd:** Welcome to the latest meeting diweddaraf Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 of Legislation Committee No. 3 at the

yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

National Assembly for Wales.

[2] Os clywch y larwm tân, dylai pawb ymadael â'r ystafell drwy'r allanfeydd tân penodol a dilyn cyfarwyddiadau'r tywyswyr a'r staff. Nid ydym yn disgwyl prawf y bore yma, ac nid ydym yn disgwyl tân ychwaith.

Should you hear the fire alarm, everyone should leave the room via the marked exits and follow the instructions of the ushers and staff. We are not expecting a fire drill this morning, nor are we expecting a fire.

[3] Dylai pawb ddiffodd eu ffonau symudol, eu galwyr a'u 'mwyar duon' gan eu bod yn amharu ar yr offer darlledu.

Everyone should switch off their mobile phones, pagers and BlackBerrys as they interfere with the broadcasting equipment.

[4] Bydd pawb yn ymwybodol bellach fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithredu'n ddwyieithog. Mae clustffonau ar gael i glywed y cyfieithiad ar y pryd, a gellir hefyd addasu'r sain arnynt ar gyfer pobl sy'n drwm eu clyw.

Everyone will by now be aware that the National Assembly for Wales operates bilingually. Headsets are available to hear the simultaneous interpretation and they may also be used to adjust the sound for those who are hard of hearing.

[5] Peidiwch â chyffwrdd â'r botymau ar y meicroffonau gan y gallai hynny amharu ar y system, a sicrhewch bod golau coch yn disgleirio cyn cychwyn siarad.

Please do not touch the buttons on the microphones as that can disable the system, and please ensure that the red light is on before speaking.

[6] Mae'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael ar sianel 1, a'r darllediad gair am air—i glywed y sain yn well—ar sianel 0.

The interpretation is available on channel 1, and the verbatim feed—for those who are hard of hearing—is on channel 0.

[7] Yr ydym wedi cael ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Helen Mary Jones. Hoffwn groesawu Veronica German i'w chyfarfod pwyllgor cyntaf. Edrychwn ymlaen at weithio gyda Veronica. Hoffwn, hefyd, gofnodi diolch y pwyllgor i Peter Black am ei waith caled fel aelod o'r pwyllgor hwn yn ystod y misoedd diwethaf.

We have received apologies for absence from Helen Mary Jones. I welcome Veronica German to her first committee meeting. We look forward to working with Veronica. I also wish to place on record the committee's thanks to Peter Black for his hard work as a member of the committee over the past few months.

9.31 a.m.

Y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)—Cam 1 The Proposed Local Government (Wales) Measure—Stage 1

[8] **David Lloyd:** Diben y cyfarfod hwn yw cytuno'n ffurfiol ar ddull y pwyllgor o graffu ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru). Gosodwyd y Mesur arfaethedig gerbron y Cynulliad gan Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ar 12 Gorffennaf 2010. Swyddogaeth y pwyllgor hwn yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chyflwyno adroddiad arnynt. Rhaid inni gwblhau ein gwaith a gosod adroddiad gerbron y Cynulliad erbyn 17 Rhagfyr 2010, yn unol â'r terfyn amser a

David Lloyd: The purpose of today's meeting is to agree formally the committee's approach to the scrutiny of the Proposed Local Government (Wales) Measure. The proposed Measure was laid before the Assembly by Carl Sargeant, Minister for Social Justice and Local Government, on 12 July 2010. The role of this committee is to consider and report on the general principles of the proposed Measure. We must conclude our work and lay a report before the Assembly no later than 17 December 2010, in line with the deadline set by the Business

bennwyd gan y Pwyllgor Busnes.

Committee.

[9] Yr ydym eisoes wedi cael rhai trafodaethau anffurfiol am y dull y byddwn yn ei ddefnyddio i graffu ar y Mesur arfaethedig, ac yr wyf yn awgrymu mai'r fframwaith ar gyfer gwaith y pwyllgor yw ystyried, yn gyntaf, yr angen am Fesur arfaethedig i gyflawni'r amcanion a nodwyd. Mae'r rhain yn cynnwys ehangu a chynyddu cyfranogiad mewn llywodraeth leol drwy ganiatáu camau a fydd yn helpu i gael gwared ar y rhwystrau a'r argymhellion sy'n atal pobl rhag sefyll mewn etholiadau cynghorau lleol. Yn ail, awgrymir adolygu a gwella'r strwythurau llywodraethu a gyflwynwyd drwy gyfrwng Deddf Llywodraeth Leol 2000 fel y bo'r strwythurau hynny'n gweddu'n well i amgylchiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Yn drydydd, byddai'r Mesur arfaethedig yn cryfhau rôl cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o weithrediadau'r awdurdodau lleol, sef aelodau'r 'meinciau cefn', fel y'u gelwir, mewn perthynas â chraffu ar wasanaethau lleol. Bydd hefyd yn ceisio datblygu a chryfhau rôl cynghorau cymuned yng Nghymru, gan gynnwys eu galluogi i gyflenwi ystod ehangach o wasanaethau a gweithredu'n ehangach yn lleol, ac i fod yn fwy effeithiol o ran eu rôl fel cynrychiolwyr ac o ran eu gallu i weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill. Bydd y Mesur arfaethedig yn ystyried diwygio'r system ar gyfer pennu lwfansau cynghorwyr, ac yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar gydlafurio rhwng awdurdodau lleol, a chydlafulio rhwng awdurdodau lleol a chyrff eraill.

We have already had some informal discussions on the approach that we will take to our scrutiny of the proposed Measure, and I suggest that the framework for the committee's work is to consider, first, the need for a proposed Measure to deliver the stated objectives. These include broadening and increasing participation in local government by permitting steps that will help to remove barriers and disincentives to standing for election to local councils. Secondly, we suggest enabling the review and improvement of the governance structures introduced through the Local Government Act 2000 so that they better suit the circumstances of local government in Wales. Thirdly, the proposed Measure will look to enhance the role of non-executive local authority councillors, or 'backbench' members, as they are called, in relation to the scrutiny of local services. It will also seek the development and strengthening of the role of community councils in Wales, including enabling them to deliver a wider range of services and actions locally as well as to increase the effectiveness of their representational role and their ability to work in partnership with other bodies. The proposed Measure will consider reforming the system for setting allowances for councillors, and allowing the Welsh Ministers to issue statutory guidance on collaboration between local authorities, and on collaboration between local authorities and other bodies.

[10] Bydd y pwyllgor yn ystyried: y darpariaethau allweddol a nodir yn y Mesur arfaethedig ac a ydynt yn briodol ar gyfer cyflawni ei amcanion; y rhwystrau posibl rhag gweithredu'r darpariaethau allweddol ac a yw'r Mesur arfaethedig yn eu hystyried; a goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig. Yn ogystal, bydd y pwyllgor yn ystyried barn y rhanddeiliaid a fydd yn gorfod gweithio gyda'r trefniadau newydd.

The committee will consider: the key provisions set out in the proposed Measure and whether they are appropriate to deliver its objectives; the potential barriers to the implementation of the key provisions and whether the proposed Measure takes account of them; and the financial implications of the proposed Measure. Furthermore, the committee will consider the views of the stakeholders who will have to work with the new arrangements.

[11] Yn dilyn hynny—ac yr ydym eisoes wedi trafod hyn yn ystod ein cyfarfod anffurfiol blaenorol—a yw'r Aelodau yn fodlon ar y dull hwn? Gwelaf eich bod yn

As a result—and we have already discussed this during our informal meeting previously—are Members content with this approach? I see that Members are content. In

fodlon. Yn ogystal, a yw'r pwyllgor yn fodlon inni gyhoeddi galwad gyffredinol am dystiolaeth, i wahodd cyflwyniadau ysgrifenedig gan sefydliadau ac unigolion, ac i wahodd rhanddeiliaid allweddol i roi tystiolaeth ysgrifenedig yn ystod yr wythnosau nesaf? Gwelaf fod pawb yn fodlon.

addition, is the committee content to issue a general call for evidence, to invite written submissions from organisations and individuals, and to invite key stakeholders to give oral evidence over the coming weeks? I see that everyone is content.

9.35 a.m.

Yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Mesur Arfaethedig The Member in Charge of the Proposed Measure

[12] **David Lloyd:** Hoffwn groesawu Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a'r Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru). Bydd yn rhoi gwybodaeth gryno i'r Aelodau am brif amcanion darpariaethau'r Mesur arfaethedig. Croeso hefyd i'w swyddogion. Mae'r llawr yn agored i chi am ychydig funudau, Weinidog.

David Lloyd: I would like to welcome Carl Sargeant, Minister for Social Justice and Local Government and the Member in charge of the Proposed Local Government (Wales) Measure. He will provide Members with a short briefing on the main aims of the provisions within the proposed Measure. I also welcome his officials. The floor is yours now for a few minutes, Minister.

[13] **The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant):** Diolch, Dai. I am grateful to the committee for allowing me to join you today to present this broad overview of the Proposed Local Government (Wales) Measure that I introduced in the Assembly earlier this week. I appreciate your finding the time for me to do that today, and I hope that my remarks will be of assistance to you as you prepare to call for evidence. It is rather unusual for the Minister to appear first, but I thought that that would be helpful on the basis that this is the longest piece of legislation to be introduced in the Assembly so far. It has 172 sections and four Schedules, so there is a lot of detail. Much of it is covered in the explanatory memorandum and the notes. If I may, Chair, I will cover each component part in general terms.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant): Diolch, Dai. Yr wyf yn ddiolchgar i'r pwyllgor am ganiatáu imi ymuno â chi heddiw i roi trosolwg bras o'r Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) a gyflwynais yn y Cynulliad yn gynharach yr wythnos hon. Gwerthfawrogaf eich bod wedi neilltuo amser imi wneud hynny heddiw, a gobeithiaf y bydd fy sylwadau o gymorth wrth ichi baratoi i alw am dystiolaeth. Mae braidd yn anarferol i Weinidog ymddangos yn gyntaf, ond meddyliais y byddai'n help o ystyried mai hwn yw'r darn hwyaf o ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn y Cynulliad hyd yn hyn. Mae iddi 172 adran a phedwar Atodiad, felly mae llawer o fanylder. Trafodir llawer ohono yn y memorandwm esboniadol a'r nodiadau. Os caf, Gadeirydd, trafodaf bob rhan mewn termau cyffredinol.

[14] The proposed Measure aims to address a number of issues that adversely affect local government in Wales. These issues have been identified and well informed with research over several years. The general conclusion is that local government in Wales is less effective and less citizen focused than it could be. Parts 1 and 2 of the proposed

Nod y Mesur arfaethedig yw mynd i'r afael â nifer o faterion sy'n effeithio'n andwyol ar lywodraeth leol yng Nghymru. Nodwyd y materion hyn a chafwyd digon o wybodaeth yn eu cylch drwy ymchwil dros sawl blwyddyn. Y casgliad cyffredinol yw bod llywodraeth leol yng Nghymru yn llai effeithiol a bod iddi lai o ffocws ar y

Measure can be summarised as actions with the aim of broadening the profile of councillors in Wales to reflect the communities that they represent better and to dismantle some of the barriers that prevent people from even considering whether to stand for election. Several of the actions in Part 1 include introducing a duty on principal councils to monitor the equality and diversity profiles of candidates in their ordinary elections.

[15] The proposed Measure also places a duty on local authorities to provide reasonable officer administration and research support for non-executive members, which I know is welcomed from the debate that we had the other day, and to establish a committee of the council to monitor the provision of that support. We also include a provision to facilitate remote attendance at council meetings and giving better access, making it possible for a diverse range of people to attend.

[16] Part 2 requires the principal councils to enable councillors to take maternity, newborn, adoption and parental leave, as is available to officers, on the basis of equality. Parts 3 and 6 of the proposed Measure can be summarised as an update of the governance and executive arrangements around the principal councils, taking advantage of the experience gained since the introduction of the Local Government Act 2000. The aim is also to improve the scrutiny function, to make it more transparent and responsive to the citizens concerned.

[17] Parts 3 to 5 simplify the procedure by which a local authority is able to change its executive model, remove the alternative arrangements—or ‘the fourth option’ as they are commonly known—and abolish the elected mayor and council manager political option, which has not been used; that just takes it out of the process. These parts of the proposed Measure will enable local authorities and/or their executives to delegate decision-making functions to non-executive elected members appointed to local service boards or other partnerships.

dinesydd nag y gall fod. Yn gryno, mae Rhannau 1 a 2 y Mesur arfaethedig yn gamau â'r nod o ehangu proffil cynghorwyr yng Nghymru i adlewyrchu'n well y cymunedau y maent yn eu cynrychioli a datgymalu rhai o'r rhwystrau sy'n cadw pobl rhag hyd yn oed ystyried sefyll mewn etholiad. Mae'r camau yn Rhan 1 yn cynnwys rhoi dyletswydd ar y prif gynghorau i fonitro proffiliau cydraddoldeb ac amrywiaeth ymgeiswyr yn eu hetholiadau cyffredin.

Mae'r Mesur arfaethedig hefyd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gweinyddiaeth swyddogion a chymorth ymchwil rhesymol i'r aelodau anweithredol—gwn o'r ddadl a gawsom yn ddiweddar fod croeso i hynny—a sefydlu pwyllgor yn y cyngor i fonitro darpariaeth y cymorth hwnnw. Yr ydym hefyd yn cynnwys darpariaeth i hwyluso mynychu cyfarfodydd cyngor o bell a rhoi gwell mynediad, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i amrywiaeth o bobl fynychu cyfarfodydd.

Mae Rhan 2 yn gofyn i'r prif gynghorau alluogi cynghorwyr i fynd ar absenoldeb mamolaeth, absenoldeb newydd-anedig, absenoldeb mabwysiadu, ac absenoldeb rhiant, yn yr un modd â swyddogion, ar sail cydraddoldeb. Gellir disgrifio Rhannau 3 a 6 y Mesur arfaethedig yn gryno fel diweddariad o'r trefniadau llywodraethol a gweithredol ynghylch y prif gynghorau, a manteisio ar y profiad a gafwyd ers cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol 2000. Y nod hefyd yw gwella'r swyddogaeth graffu, i'w gwneud yn fwy tryloyw ac ymatebol i'r dinasyddion dan sylw.

Mae Rhannau 3 hyd 5 yn symleiddio'r gweithdrefnau y gall awdurdodau lleol eu defnyddio i newid modelau gweithredol, tynnu'r trefniadau amgen—neu'r ‘pedwerydd opsiwn’ fel y'u hadweinir yn gyffredin—a diddymu opsiwn gwleidyddol y maer etholedig a rheolwr cyngor, nad yw wedi'i defnyddio eto; mae hynny yn ei dynnu o'r broses. Bydd y rhannau hyn o'r Mesur arfaethedig yn galluogi awdurdodau lleol ac/neu eu swyddogion gweithredol i ddatganoli swyddogaethau penderfynu i aelodau etholedig anweithredol a benodir i fyrddau gwasanaeth lleol neu bartneriaethau eraill.

[18] Part 6 allows two or more local authorities to take a joint overview in the scrutiny committee, recognising the trend that we want to encourage, which is for local authorities to work together in the delivery of their services. The role of scrutiny committees generally will be strengthened by enabling them to require organisations outside the council and public area that they represent to give information and make responses.

9.40 a.m.

[19] We plan to introduce steps to prohibit political groups from imposing a whip on members of scrutiny committees—and I find that interesting, as a former Chief Whip. We require local authorities to allocate chairs of scrutiny committees in proportion to the political balance on the councils, which is an important step forward. We are also introducing a provision to require local authorities to establish audit committees to monitor their financial affairs for scrutiny purposes, to require scrutiny committees to publish forward plans of their work programme, and to require scrutiny committees to consult electors in the reviews that they undertake.

[20] Part 7 of the proposed Measure can be summarised as increasing the capacity and capability of community councils to develop their skills and responsibilities, building on the Aberystwyth review of 2001 and making it simpler to set up a community council. It also sets a higher threshold for a community decision to dissolve an existing council. We are concerned about the tendency of some community councils to co-opt friends and neighbours, and so we will require vacancies that are to be filled by co-option to be advertised widely locally. In a similar vein, we will provide a power to enable community councils to appoint non-voting youth representatives to encourage broader participation, which is a major step forward in Wales.

[21] We will tidy up the loophole in the existing legislation, and specify that unitary authorities review their community areas every 15 years, and report to the Local Government Boundary Commission for

Mae Rhan 6 yn caniatáu i ddau awdurdod neu ragor gynnal trosolwg ar y cyd yn y pwyllgor craffu, gan gydnabod y duedd yr ydym am ei hannog, sef i awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd wrth gyflenwi'u gwasanaethau. Cryfheir rôl pwyllgorau craffu yn gyffredinol drwy'u galluogi i fynnu i gyrff y tu allan i'r cyngor a'r maes cyhoeddus y maent yn eu cynrychioli roi gwybodaeth a darparu ymatebion.

Ein bwriad yw cyflwyno camau i wahardd grwpiau gwleidyddol rhag dylanwadu aelodau pwyllgorau craffu drwy chwip—mae hynny o ddiddordeb i mi, a minnau'n gyn-Brif Chwip. Yr ydym yn gofyn i awdurdodau lleol ddyrannu cadeiryddiaethau ym mhwyllgorau craffu'r cynghorau yn unol â chydbwysedd gwleidyddol cynghorau, ac mae hynny'n gam pwysig ymlaen. Yr ydym hefyd yn cyflwyno darpariaeth a fydd yn gofyn i awdurdodau lleol sefydlu pwyllgorau archwilio i fonitro eu materion cyllidol i ddibenion craffu, yn gofyn i bwyllgorau craffu gyhoeddi blaenraglenni gwaith, ac yn gofyn i bwyllgorau craffu ymgynghori ag etholwyr yn eu hadolygiadau.

Gellir disgrifio Rhan 7 y Mesur arfaethedig yn gryno fel cynyddu capasiti a gallu cynghorau cymunedol i ddatblygu eu sgiliau a'u cyfrifoldebau, adeiladu ar adolygiad Aberystwyth 2001, a gwneud sefydlu cyngor cymunedol yn symlach. Mae hefyd yn gosod trothwy uwch ar gyfer penderfyniad cymunedol i ddiddymu cyngor. Mae pryder gennym am duedd rhai cynghorau cymunedol i gyfethol cyfeillion a chymdogion, felly byddwn yn gofyn i swyddi gwag sydd i'w llenwi drwy gyfethol gael eu hysbysebu yn eang yn lleol. Mewn modd tebyg, byddwn yn darparu pŵer a fydd yn galluogi cynghorau cymunedol i benodi cynrychiolwyr ieuenctid heb bleidlais i annog cyfranogi ehangach, sy'n gam mawr ymlaen yng Nghymru.

Byddwn yn cau'r bwlch yn y ddeddfwriaeth bresennol, ac yn nodi bod awdurdodau unedol i adolygu eu hardaloedd cymunedol bob 15 mlynedd, gan adrodd i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. Yr ydym

Wales. We are also keen to develop the role of community councils in their local areas, so we will extend the power of wellbeing to community councils. We will enable the Assembly Government to provide direct grants and funding to community councils for particular purposes, if needed.

[22] The aim of Part 8 is to rationalise the system of councillors' allowances so that it is fair, transparent and streamlined. I think that that will be welcomed across Wales. It is not that there is anything specific that we should be looking at, but the system will be streamlined in accordance with that for all other elected members.

[23] Finally, Part 9 covers the more technical provisions, such as commencement Orders, Order-making powers and so on. Section 164 corrects an omission from the Local Government (Wales) Measure 2009, and will extend the Welsh Ministers' powers to issue guidance on local authorities' powers and duties regarding collaboration, which is a key part of the Welsh Assembly Government's agenda.

[24] That was a quick run through the main provisions of the proposed Measure. There is a lot to think about in preparing for evidence gathering and so on. I think that the content is largely non-controversial, but parts of the proposed Measure will attract more interest than others. For example, although section 9 is a small section, it will be more thought-provoking than others. I hope that my introduction has been helpful, and I look forward to continuing our discussions. I would be delighted to come back to give more evidence whenever you want to call me, perhaps in the autumn.

[25] **David Lloyd:** Diolch yn fawr am yr amlinelliad cryno hwnnw, Weinidog, a fydd yn gosod y tirlun ar gyfer y dyfodol. Bydd mudiadau yn craffu ar Gofnod y cyfarfod hwn, a bydd eich geiriau yn eu harwain yn eu hymatebion i'r Mesur arfaethedig hwn. Bydd eich geiriau yn werthfawr iawn. Byddwn yn eich galw yn ôl yn yr hydref fel rhan o'r broses swyddogol o graffu, a bydd cwestiynau penodol i chi eu hateb bryd

hefyd yn awyddus i ddatblygu rôl y cynghorau cymunedol yn eu hardaloedd lleol, felly byddwn yn ehangu'r pŵer lles i gynghorau cymunedol. Byddwn yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i roi grantiau ac arian yn uniongyrchol i gynghorau cymunedol at ddibenion penodol, os bydd angen.

Nod Rhan 8 yw rhesymoli system lwfansau cynghorwyr fel y bydd yn deg, yn dryloyw ac yn syml. Credaf y bydd croeso i hynny ar draws Cymru. Nid oes un peth penodol y dylem fod yn edrych arno, ond caiff y system ei symleiddio yn unol â system aelodau etholedig eraill.

Yn olaf, mae Rhan 9 yn delio â'r darpariaethau mwy technegol, megis Gorchmynion cychwyn, pwerau gwneud Gorchmynion ac ati. Mae adran 164 yn cywiro diffyg ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a bydd yn ymestyn pwerau Gweinidogion Cymru i gyhoeddi arweiniad ynghylch pwerau awdurdodau lleol a dyletswyddau o ran cydweithio, sy'n rhan allweddol o agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Dyna fynd yn frysio g drwy brif ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig. Mae llawer i feddwl amdano wrth baratoi at y casglu tystiolaeth ac ati. Credaf nad yw'r cynnwys yn ddadleuol gan fwyaf, ond bydd rhannau o'r Mesur arfaethedig yn denu mwy o ddiddordeb nag eraill. Er enghraifft, er mai adran fach yw adran 9, bydd yn achosi mwy o feddwl na rhannau eraill. Gobeithiaf fod fy nghyflwyniad wedi bod yn help, ac edrychaf ymlaen at barhau ein trafodaethau. Byddwn wrth fy modd i ddod yn ôl a rhoi mwy o dystiolaeth pryd bynnag yr ydych am fy ngalw—efallai yn yr hydref.

David Lloyd: Thank you very much for that brief outline, Minister, which will set the scene for the future. Organisations will be looking closely at the Record of this meeting, and your words will give them a steer for their responses to the proposed Measure. Your words will be most valuable. We will be calling you back in the autumn as part of the official scrutiny process, and there will be specific questions for you to answer at that

hynny. Diolch am osod darlun o'n blaenau y bore yma o'r hyn yr ydych yn gobeithio ei gyflawni.

time. Thank you for setting the scene for us of what it is that you hope to achieve.

[26] Gyda'r sylwadau hynny, yr wyf yn cau'r eitem hon ac yn cloi'r cyfarfod, gan ddatgan wrth fy nghyd-Aelodau y bydd y cyfarfod nesaf ar ddydd Iau, 23 Medi. Yr wyf yn dymuno rhai dyddiau braf o wyliau ichi cyn dod yn ôl yr wythnos nesaf i weithio'n galed yn eich etholaethau. Diolch yn fawr i'r Gweinidog a'i swyddogion am fod yma heddiw, a diolch i fy nghyd-Aelodau am eu presenoldeb. Yr wyf yn datgan bod y cyfarfod ar ben ac yn diolch am y cyfieithu.

With those comments, I bring this item and the meeting to a close, and I inform my fellow Members that our next meeting will take place on Thursday, 23 September. I wish you all a few pleasant days of holiday before you return next week to work hard in your constituencies. I thank the Minister and his officials for being here today, and I thank my fellow Members for their presence. I declare the meeting closed and I offer my thanks for the interpretation.

*Daeth y cyfarfod i ben am 9.45 a.m.
The meeting ended at 9.45 a.m.*